**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**22 IONAWR 2014**

**EITEM WYBODAETH**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLEIDDIO**

# PROSIECT SEILWAITH MAWR CYSYLLTIADAU FFERMYDD GWYNT GOGLEDD CYMRU

# ADRODDIAD DIWEDDARU

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Bydd yr Aelodau'n cofio'r adroddiadau blaenorol a oedd yn canolbwyntio ar brosiectau seilwaith mawr yn Sir Ddinbych.

1.2 Nod yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Aelodau ar statws presennol Prosiect Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru, a cheisio ateb ynglŷn ag i ba raddau y dylai'r Cyngor gyfranogi yn y broses gynllunio ar gyfer y prosiect hwn.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae prosiectau seilwaith mawr yn ddatblygiadau graddfa fawr sy'n gofyn am fath o ganiatâd a elwir yn 'ganiatâd datblygu' dan y trefnau a reolir gan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae hyn yn cynnwys ffermydd gwynt ar y tir sydd â chapasiti cynhyrchu dros 50 megawatt (MW) a llinellau pŵer trydan uwchben foltedd uchel newydd ar 132,000 folt (132kV) neu fwy.

2.2 Caiff ceisiadau am ganiatâd datblygu eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio, ac mae hithau'n penodi Awdurdod Archwilio (naill ai Arolygydd unigol neu banel o Arolygwyr) i bwyso a mesur y cais. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a bydd ef yn penderfynu rhoi'r caniatâd datblygu neu beidio.

2.3 Mae'r awdurdod lleol yn un o'r ymgynghoreion statudol ar brosiectau seilwaith mawr ac mae ganddo ran bwysig i'w chwarae os yw'n dewis bod yn rhan o'r broses gynllunio; mae'r Cyngor, yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau (Gorffennaf 2012), yn flaenorol wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn yn y broses gynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith mawr a gynhelir yn y Sir neu sy'n effeithio'n uniongyrchol arni.

2.4 Nid yw'r Cyngor yn cael ffi gynllunio am fod yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith mawr; er hynny, bydd gofyn am adnoddau ac amser sylweddol gan y swyddogion, gan gynnwys caffael ymgynghorwyr allanol, er mwyn ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio a chyfranogi yn y broses Archwilio.

2.5 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gytundebau cyfreithiol (e.e. Cytundebau Perfformiad Cynllunio) i dalu'r gost sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith mawr eraill yn y Sir a defnyddiwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru hefyd mewn cysylltiad â datblygiadau ffermydd gwynt yn yr Ardal Chwilio Strategol.

## 3. PROSIECT CYSYLLTIADAU FFERMYDD GWYNT GOGLEDD CYMRU

3.1 Cysylltiad llinellau uwchben 132kV newydd sydd dan sylw ym Mhrosiect Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru; mae'r llinell yn ofynnol i gysylltu'r datblygiadau ffermydd gwynt newydd yn Ardal Chwilio Strategol (AChS) Coedwig Clocaenog gyda'r rhwydwaith trydan. Scottish Power Manweb (SPM), sy'n berchen ar y drwydded dosbarthu trydan ar gyfer Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd a Chanolbarth Cymru, yw'r ymgeisydd.

3.2 Mae'r prosiect yn effeithio ar Sir Ddinbych a Chonwy fel ei gilydd.

3.3 Bydd y llinell uwchben arfaethedig yn dechrau mewn is-orsaf gasglu newydd yng Nghoedwig Clocaenog (lle caiff y pŵer a gynhyrchir gan y ffermydd gwynt newydd ei gasglu) a bydd yn mynd yn ei

blaen i bolyn terfynol ger Sinan (i'r de o Ffordd Glascoed, yng Nghefn Meiriadog). O'r polyn terfynol, bydd y cysylltiad wedyn yn mynd yn ei flaen dan ddaear i gysylltu â'r rhwydwaith trosglwyddo cenedlaethol yn yr is-orsaf bresennol yn Llanelwy. Y llinellau uwchben 132kV yn unig fydd yn ffurfio rhan o'r cais arfaethedig am orchymyn caniatâd datblygu a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal arno.

3.4 Mae'r deunyddiau ymgynghori cynnar wedi dangos mai ar ffurf polion pren dwbl fydd y llinell uwchben yn bennaf, gyda rhai tyrau dur yn ofynnol. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth.

3.5 Ar hyn o bryd, yn y cam cyn ymgeisio y mae'r cais. Mae drafft ymgynghori o'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (DoYC) wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych ac i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae gan y Cynghorau hyd at ddydd Gwener 7fed Chwefror i gyflwyno sylwadau. Mae gan y swyddogion bwerau dirprwyedig i roi sylwadau ar y DoYC drafft, er hynny, mae copi o'r ddogfen ddrafft wedi'i chylchredeg i'r Cynghorwyr Ward perthnasol i gael sylwadau arni a rhoddwyd copi caled yn ystafell yr Aelodau.

3.6 Mae SPM eisoes wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn ymgeisio anstatudol mewn dau gam; canolbwyntiai Cam 1 ar y tri opsiwn o safbwynt coridorau llwybr ar gyfer y llinell bŵer uwchben a chanolbwyntiai Cam 2 ar y coridor llwybr a ffafrir ar gyfer y llinell bŵer uwchben.

3.7 Mae'r DoYC drafft yn ymwneud yn benodol â Cham 3 o'r ymgynghoriad cyn ymgeisio, sy'n cyfrif fel yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn ymgeisio statudol yn unol ag Adran 42 ac Adran 47 o'r Ddeddf Cynllunio 2008. Bydd yr ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol yn rhedeg o 3 Mawrth 2014 tan 13 Ebrill 2014. (Sylwer, fel rhan o ymateb ymgynghoriad y Cyngor i'r DoYC drafft, y bydd y Cyngor yn gofyn i'r amserlenni gael eu newid / ymestyn i gyd-fynd â'n cylch Pwyllgorau oherwydd y bydd angen i ymateb ffurfiol y Cyngor i'r ymgynghoriad cyhoeddus cyn ymgeisio statudol gael ei adrodd wrth y Pwyllgor Cynllunio a chael ei gymeradwyo ganddo.)

3.8 Nid yw'r DoYC drafft yn nodi pryd y mae SPM yn bwriadu cyflwyno'r cais am ganiatâd datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio; er hynny, mae'r Swyddogion yn ystyried y bydd SPM yn awyddus i fwrw'r cais ymlaen er mwyn bodloni'r cytundebau cysylltiadau grid y maent wedi'u sefydlu gyda datblygwyr ffermydd gwynt yr AChS.

**4. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

4.1 Mae'n bosibl y bydd angen neilltuo llawer iawn o amser ac adnoddau swyddogion i'r prosiect yn ystod yr ymgynghoriad cyn ymgeisio ac yn ystod y cam Archwilio er mwyn asesu'r effeithiau'n lleol.

4.2 Mae effaith weledol y cynnig a'i effaith ar y tirlun yn debygol o fod yn un o'r ystyriaethau cynllunio allweddol; mae'n bosibl felly y bydd angen i'r Cyngor gaffael gwasanaethau ymgynghoriaeth tirlun allanol i helpu i asesu effeithiau'r cynnig yn lleol.

4.3 Nid yw'r Cyngor wedi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol gyda'r datblygwr o safbwynt y prosiect hwn ac mae'n bosibl na fydd prosiectau llinellau pŵer uwchben yn gymwys am gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl felly na fydd y Cyngor y gallu adennill y costau yr aiff iddynt i ymateb i'r prosiect hwn.

4.4 Mae'r prosiect yn effeithio ar Sir Ddinbych a Chonwy, felly mae'n bosibl y ceir cyfle i weithio mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a rhannu adnoddau swyddogion.

4.5 Er gwaethaf y penderfyniad yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Gorffennaf 2012 i chwarae rhan lawn yn y broses gynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, gofynnir am arweiniad gan yr Aelodau ynglŷn â pha lefel o adnoddau y dylai'r Cyngor ei rhoi i ymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol a gynhelir maes o law.

**5. ARGYMHELLION**

5.1 Gofynnir i'r Aelodau sylwi ar y dyddiadau allweddol a nodir yn Adran 3 o'r adroddiad hwn.

5.2 Ceisir penderfyniad ar ba lefel o adnoddau y dylai'r Cyngor ei rhoi i ymateb i'r prosiect hwn.

**GRAHAM H. BOASE PENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLEIDDIO**